# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

| |
|---|
| Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026. |

DRAFT

# Gwybodaeth am y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno dysgwyr i sectorau galwedigaethol drwy brofiadau dysgu ymarferol, hygyrch, sy'n datblygu sgiliau sylfaenol, cefnogi datblygiad personol, a galluogi dilyniant i addysg a hyfforddiant pellach. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14–16, 16–19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw Gymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau, mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Rydym wedi ymrwymo i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yw eu strwythur unedol, sy'n caniatáu i'r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod modd rheoli cyflymder y dysgu, lleihau pwysau asesu, a chefnogi dilyniant cyson, ystyrlon.

Mae ein dull asesu hyblyg yn grymuso athrawon i greu gweithgareddau asesu ystyrlon sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, wrth sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd teg a phriodol i ddangos eu cyflawniadau. Mae'r cyfuniad o feini prawf asesu sydd wedi'u diffinio'n glir a thasgau y gellir addasu eu dyluniad yn hyrwyddo profiadau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi cynnydd, yn dathlu cryfderau unigol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae ein dull graddio sy'n digolledu yn cydnabod y gall dysgwyr berfformio'n wahanol ar draws y cymhwyster. Mae ein dull yn galluogi perfformiad cryf mewn un maes i wrthbwyso perfformiad gwannach mewn maes arall, gan gyfrannu at brofiad asesu tecach a mwy cefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer astudiaeth ôl-16.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 6
    - 1.1. Pwrpas a nodau ... 6
    - 1.2. Cwricwlwm i Gymru ... 7
    - 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ... 8
    - 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ... 8
    - 1.5. Y defnydd o iaith ... 8
    - 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ... 9
2. Unedau ... 10
    - 2.1. Fformat yr unedau ... 10
    - 2.2. Bonion deilliannau dysgu ... 11
    - 2.3. Cynnwys ... 11
    - 2.4 Tasgau Asesu ... 11
        - Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiannau cyfryngau creadigol yng Nghymru ... 12
        - Uned 2 Offer a phrosesau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau ... 23
3. Asesu ... 40
    - 3.1. Tasgau asesu ... 40
    - 3.2. Hyd yr asesiad ... 40
    - 3.3. Gofynion tystiolaeth ... 40
    - 3.4. Cefnogaeth ac arweiniad ... 41
    - 3.5. Goruchwylio a dilysu ... 42
    - 3.6. Marcio (dyfarniadau asesu) ... 42
    - 3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli ... 43
    - 3.8. Camymddwyn ... 44
4. Gwybodaeth dechnegol ... 45
    - 4.1. Cofrestru ar gyfer unedau ... 45
    - 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ... 45
    - 4.3. Graddio ... 46
    - 4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol ... 47
    - 4.5. Ail-wneud y cymhwyster ... 47

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 48


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Crynodeb o'r Asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i ddiwydiannau'r cyfryngau creadigol yng Nghymru<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 9 awr<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| Uned 2: Offer a phrosesau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 38 awr<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Dylid addysgu Uned 1 yn gyntaf – dyma'r uned ragarweiniol.

Bydd Uned 1 ar gael o haf 2028, a bydd Uned 2 ar gael yn haf 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan gynnig profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cyfnod datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae'r Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cynnig cynnwys ac asesiadau deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae'r Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau addysg neu hyfforddiant nesaf.

Nod y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg yw cefnogi dysgwyr i:

- hybu dealltwriaeth o'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, gan gynnwys y sector a'i gynhyrchion, rolau swydd a chyfrifoldebau, materion moesegol a chyfreithiol ac effaith technoleg
- datblygu sut i ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau creadigol a thechnegol ar draws prosesau creadigol rhag-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio, trefnu a chyfathrebu o fewn cyd-destun cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg
- hybu ymwybyddiaeth o gwmnïau o Gymru yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg a'u cyfraniad at economi Cymru
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth ym maes cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith, Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Mae'r egwyddorion cynnydd[1] yn ganolog i'r cynllun hwn, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[2] ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn Adran 2.3; Bydd gwybodaeth bellach ynghylch sut i integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w chael yn y Canllawiau Addysgu.

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Celfyddydau Mynegiannol drwy roi cyfle i ddysgwyr:
    - ddatblygu gwybodaeth a sgiliau creadigol i arddangos rheolaeth mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol
    - datblygu eu gallu i werthfawrogi ac adfyfyrio ar waith creadigol pobl eraill yn ogystal â'u doniau creadigol eu hunain, er mwyn ysbrydoli a thanio'r dychymyg
    - casglu, cyflwyno a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth
    - archwilio Cymru a'i thraddodiadau, hanes a diwylliannau unigryw ac amrywiol a datblygu eu hunaniaeth eu hunain fel pobl greadigol yng Nghymru
    - datblygu'r gallu i adfyfyrio drwy ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i greu
    - datblygu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi a'u cymhwyso i'w datblygiad creadigol
    - nodi sut gallant wella eu gwaith creadigol ac ymateb i adborth gan eraill.
- cefnogi egwyddorion cynnydd y Celfyddydau Mynegiannol drwy annog dysgwyr i:
    - ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, gydag ehangder a dyfnder cynyddol, er mwyn eu galluogi i ddod yn unigolion hyderus, chwilfrydig a chreadigol
    - datblygu sut i ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o sgiliau technegol, gydag annibyniaeth a soffistigeiddrwydd cynyddol, er mwyn gallu datrys problemau a nodi atebion yn y broses greadigol
    - archwilio, creu, mireinio a chyfleu syniadau creadigol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, cyd-destunau a dibenion
    - datblygu amrywiaeth o sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio, cyfathrebu a chydweithio, a fydd yn eu cefnogi i ddod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
    - ymgysylltu'n gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn y broses greadigol, i feithrin eu llesiant, eu hunan-barch a'u gwydnwch, gan eu helpu i ddod yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

[1] Celfyddydau Mynegiannol: Egwyddorion cynnydd – Hwb
[2] Celfyddydau Mynegiannol: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofyniad ffurfiol ar gyfer dysgu blaenorol, mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, sy'n gweithio ar lefel mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'n adeiladu ar sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol a ddatblygwyd drwy brofiadau dysgu cynharach, fel arfer rhwng 3 a 14 oed.

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth hanfodol a sgiliau ymarferol ac i fagu hyder, gan weithredu fel sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae hefyd yn paratoi dysgwyr ar gyfer dilyniant i astudiaethau pellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae cynnwys Lefel 1 Llwyddiant yn cydnabod lefelau cyflawniad uwch ac yn darparu llwybr clir i gymwysterau Lefel 1/Lefel 2, Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg, gan gefnogi dilyniant parhaus a dyhead dysgwyr. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg wedi'i gynllunio i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint cynnwys pob uned yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd eu hangen ar gyfer pob uned.

| | ODA |
|---|---|
| Uned 1 | 36 awr |
| Uned 2 | 84 awr |
| **Cyfanswm** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Gan fod y Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad rhag-16 oed, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso’r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach os yw hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei gynrychioli a'i gefnogi'n gywir.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid y gofynion a fwriadwyd ar gyfer yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael ar www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Dyma amcangyfrif o'r oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio o dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Trosolwg o'r uned | Dyma grynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth allweddol yr ymdrinnir â nhw, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Deilliannau Dysgu | Dyma restr o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth benodol y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r uned yn llwyddiannus. |
| Crynodeb o'r asesu | Dyma grynodeb o ddull asesu'r uned.<br>Mae'r adran hon hefyd yn nodi faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau asesiadau. |
| Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Dyma fanylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio sydd eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Dyma fanylion cysylltau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Dyma amlinelliad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddynt fodloni'r meini prawf asesu. |
| Meini prawf asesu | Dyma'r meini prawf penodol, arsylwadwy, a mesuradwy y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni i ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniad dysgu. Darperir pedwar gwahanol fand o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu gwahanol lefelau o allu dysgwr. |
| Tasgau enghreifftiol | Dyma amrywiaeth o dasgau addas ar gyfer pob lefel o'r meini prawf asesu. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Dylai athrawon sicrhau bod gweithgareddau a thasgau asesu yn addas ar gyfer anghenion a gallu pob grŵp o ddysgwyr. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Maent yn tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau addysgu.<br>Ni fydd profiadau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.2. Bonion deilliannau dysgu

Yng Nghymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC, defnyddir bonion deilliannau dysgu i nodi math a dyfnder y dysgu a ddisgwylir.

Mae 'Bydd dysgwyr yn gwybod' yn cael ei ddefnyddio pan ddisgwylir i ddysgwyr gofio ffeithiau syml neu wybod gwybodaeth allweddol.

Mae 'Bydd dysgwyr yn deall' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud synnwyr o gysyniadau sylfaenol a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, â chefnogaeth.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gallu' pan ddisgwylir i ddysgwyr gyflawni tasgau ymarferol syml, dilyn cyfarwyddiadau, neu ddangos technegau sylfaenol.

Mae'r bonion hyn yn sicrhau bod canlyniadau'n hygyrch, yn gyraeddadwy, ac yn briodol i ddysgwyr sylfaen sy'n datblygu hyder mewn meysydd galwedigaethol.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob deilliant dysgu, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

## 2.4 Tasgau Asesu

Darperir tasgau asesu enghreifftiol ar ddiwedd pob uned ynghyd ag unrhyw ofynion adnoddau penodol. Mae'r tasgau hyn wedi'u cynllunio i gydbwyso rhwyddineb, ymgysylltu â dysgwr, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Gall canolfannau ddewis defnyddio'r tasgau hyn fel ag y maent, eu haddasu neu ddatblygu rhai amgen eu hunain. Rhaid i dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan alluogi dysgwyr i fodloni'r holl feini prawf asesu cysylltiedig.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 1 Cyflwyniad i'r diwydiannau cyfryngau creadigol yng Nghymru

| | |
|---|---|
| ODA | 36 awr |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i sector y cyfryngau creadigol yng Nghymru, yn archwilio amrywiaeth cynhyrchion y cyfryngau creadigol a'u dibenion, ac yn archwilio enghraifft o allbwn y cyfryngau creadigol yng Nghymru.<br><br>Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o rolau allweddol o fewn y diwydiannau cyfryngau creadigol a byddant yn datblygu sgiliau sylfaenol yn llythrennedd y cyfryngau a fydd yn cefnogi dilyniant i gynhyrchu ymarferol yn Uned 2. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>DD1.1 – gwybod am gwmnïau cyfryngau creadigol Cymru, eu cynnyrch a'u dibenion<br>DD1.2 – gwybod sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio a sut mae cynhyrchion y cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd<br>DD1.3 – deall am weithio yn y diwydiannau cyfryngau creadigol<br>DD1.4 – deall rôl cyrff rheoleiddio allweddol ac ystyriaethau moesegol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesiad ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal drwy weithgareddau wedi'u gosod gan athrawon sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Ceir awgrymiadau am weithgareddau a thystiolaeth ar ôl yr uned. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm o 9 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd asesu fel arfer o fewn yr ystod ddangosol o 7–9 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi bras amcan o'r amser a dreuliodd pob dysgwr ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes angen adnoddau arbenigol ar gyfer yr asesiad. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn yr unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD1.1<br>Gwybod am gwmnïau cyfryngau creadigol o Gymru, eu cynnyrch a'u dibenion | Enghreifftiau o gwmnïau cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynhyrchion, er enghraifft:<br><br>• Boom Cymru<br>• ITV Cymru<br>• S4C<br>• Wales Interactive.<br><br>Pwrpas cwmnïau cyfryngau creadigol Cymru a phwrpas y cynhyrchion maen nhw'n eu cynhyrchu, er enghraifft:<br><br>• hysbysu ac addysgu<br>• diddanu<br>• perswadio<br>• hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru<br>• codi ymwybyddiaeth. |
| DD1.2<br>Gwybod sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio a sut mae cynhyrchion y cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd | Beth yw cynulleidfa darged a sut a pham mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio, er enghraifft:<br><br>• oedran<br>• rhywedd<br>• ffordd o fyw a diddordebau<br>• cefndir diwylliannol<br>• arferion defnyddio'r cyfryngau<br>• incwm<br>• lleoliad.<br><br>Sut mae cynhyrchion cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd, er enghraifft:<br><br>• delweddau<br>• sain<br>• testun<br>• rhyngweithioldeb<br>• cynllun a dyluniad. |
| DD1.3<br>Deall am weithio yn y diwydiannau cyfryngau creadigol | Astudiaeth ôl-16, er enghraifft:<br><br>• prentisiaethau<br>• Cymwysterau galwedigaethol Lefel 1-3.<br><br>Rolau swyddi allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol, er enghraifft:<br><br>• Cynhyrchydd<br>• Cyfarwyddwr<br>• Golygydd<br>• Gweithredydd camera<br>• Peiriannydd sain |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| | • Sgriptiwr<br>• Crëwr cynnwys<br>• Dylunydd gemau fideo.<br><br>Y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rolau swyddi allweddol, er enghraifft:<br><br>• sgiliau trosglwyddadwy, megis cydweithio, cwrdd â therfynau amser, datrys problemau<br>• sgiliau creadigol, megis creu a datblygu syniadau, cyfathrebu syniadau trwy ddelweddau, dylunio, a chynllun a sain<br>• sgiliau technegol, megis golygu gweledol a golygu sain, dylunio graffeg, defnyddio meddalwedd / offer deallusrwydd artiffisial (AI). |
| DD1.4<br>Deall rôl cyrff rheoleiddio allweddol ac ystyriaethau moesegol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol | Rôl cyrff rheoleiddio allweddol y diwydiannau cyfryngau creadigol, er enghraifft:<br><br>• The British Board of Film Classification (BBFC)<br>• System graddio oedran The Pan-European Game Information (PEGI)<br>• The Office of Communications (Ofcom)<br>• The Advertising Standards Authority (ASA).<br><br>Ystyriaethau moesegol allweddol wrth gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol, er enghraifft:<br><br>• preifatrwydd<br>• cynrychioliad teg ac amrywiaeth<br>• manwl gywirdeb<br>• defnyddio AI |

## Meini prawf asesu

Mae gan bob maen prawf asesu bwyntiau sy'n cynrychioli'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni. Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Dyfernir gradd yr uned yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pwyntiau a gyflawnwyd gan y dysgwr fel y nodir yn adran 4.3 Graddio.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.1<br>Bydd y dysgwr yn gwybod am gwmnïau cyfryngau creadigol o Gymru, eu cynnyrch a'u pwrpas | 1.1.1<br>Adnabod o leiaf un cwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.1<br>Enwi o leiaf ddau gwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.1<br>Nodi tri chwmni cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynhyrchion. | 1.1.1<br>Rhestru pedwar cwmni cyfryngau creadigol o Gymru a rhoi enghreifftiau penodol o'u cynnyrch. | /4 |
| | 1.1.2<br>Adnabod o leiaf un o ddibenion cwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.2<br>Nodi pwrpas dau gwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.2<br>Nodi pwrpas tri chwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.2<br>Rhestru pwrpas pedwar cwmni cyfryngau creadigol o Gymru. | /4 |
| | 1.1.3<br>Adnabod o leiaf un o ddibenion cynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.3<br>Nodi pwrpas dau gynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.3<br>Nodi pwrpas tri chynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru. | 1.1.3<br>Rhestru pwrpas pedwar cynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru. | /4 |
| DD1.2<br>Bydd y dysgwr yn gwybod sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio a sut mae cynhyrchion cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd | 1.2.1<br>Adnabod diffiniad syml o gynulleidfa darged. | 1.2.1<br>Diffinio cynulleidfa darged yn eu geiriau eu hunain. | 1.2.1<br>Diffinio cynulleidfa darged a nodi sut a pham mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio. | 1.2.1<br>Disgrifio beth yw cynulleidfa darged gan ddefnyddio enghreifftiau ac amlinellu sut a pham mae cynulleidfaoedd yn cael eu categoreiddio. | /4 |
| | 1.2.2<br>Adnabod un ffordd y mae cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd. | 1.2.2<br>Rhoi o leiaf ddwy ffordd y mae cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at gynulleidfaoedd. | 1.2.2<br>Nodi'r gwahanol ffyrdd y mae un cynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru yn apelio at gynulleidfaoedd. | 1.2.2<br>Nodi'r gwahanol ffyrdd y mae dau gynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru wedi'u henwi yn | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| | | | | apelio at eu cynulleidfaoedd targed. | |

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.3<br>Bydd y dysgwr yn deall am weithio yn y diwydiannau cyfryngau creadigol | 1.3.1<br>Adnabod o leiaf un cyfle astudio ôl-16 sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.1<br>Enwi un cyfle astudio ôl-16 sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.1<br>Disgrifio un cyfle astudio ôl-16 sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.1<br>Esbonio dau gyfle astudio ôl-16 sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | /4 |
| | 1.3.2<br>Adnabod o leiaf un rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.2<br>Nodi dwy rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.2<br>Disgrifio dwy rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.2<br>Esbonio tair rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | /4 |
| | 1.3.3<br>Adnabod o leiaf un sgil sy'n ofynnol ar gyfer o leiaf un rôl swydd yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.3<br>Nodi un sgil ar gyfer pob rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.3<br>Disgrifio dwy sgil ar gyfer pob rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.3.3<br>Esbonio dwy sgil ar gyfer pob rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.4<br>Bydd y dysgwr yn deall rôl cyrff rheoleiddio allweddol ac ystyriaethau moesegol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol | 1.4.1<br>Adnabod o leiaf un corff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.4.1<br>Nodi o leiaf un corff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.4.1<br>Disgrifio rôl o leiaf un corff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | 1.4.1<br>Esbonio rolau o leiaf ddau gorff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol. | /4 |
| | 1.4.2<br>Adnabod o leiaf un ystyriaeth foesegol allweddol wrth gynhyrchu cynhyrchion cyfryngau creadigol. | 1.4.2<br>Nodi o leiaf un ystyriaeth foesegol allweddol wrth gynhyrchu cynhyrchion cyfryngau creadigol. | 1.4.2<br>Disgrifio o leiaf un ystyriaeth foesegol allweddol wrth gynhyrchu cynhyrchion cyfryngau creadigol. | 1.4.2<br>Esbonio o leiaf ddwy ystyriaeth foesegol allweddol wrth gynhyrchu cynhyrchion cyfryngau creadigol. | /4 |
| | | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | **/40** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD1.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- paru/trefnu gwybodaeth neu gardiau gyda delweddau i gategorïau e.e. cwmni, pwrpas, cynnyrch
- paru/trefnu lluniau neu enghreifftiau fideo i nodi eu pwrpas e.e., 'diddanu', 'hysbysu', neu 'berswadio'
- creu cwis digidol rhyngweithiol am gwmni cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynhyrchion i'r dysgwyr ei gwblhau
- darparu rhestr o gwmnïau cyfryngau creadigol neu logos i ddysgwyr a gofyn iddynt nodi cwmni o Gymru.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- gweithgaredd llenwi'r bylchau – y dysgwyr i gwblhau brawddegau am gwmnïau cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynnyrch
- rhoi enw cwmni cyfryngau creadigol o Gymru i'r dysgwyr a gofyn iddynt ddweud pwy ydynt a beth maent yn ei greu
- creu poster syml am gwmni cyfryngau creadigol o Gymru, ei bwrpas a'i gynnyrch.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- rhoi taflenni ffeithiau am gwmnïau cyfryngau creadigol i'r dysgwyr a gofyn iddynt dynnu sylw at wybodaeth allweddol am y cwmni, ei bwrpas a'i gynhyrchion
- ymchwilio i gwmnïau cynhyrchu cyfryngau creadigol o Gymru a chyflwyno eu canfyddiadau mewn ffordd briodol e.e., poster, ffeithlun ac ati.
- defnyddio sgrinluniau o wefannau cwmnïau cyfryngau creadigol a gofyn i'r dysgwyr labelu ac anodi gwybodaeth allweddol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- mewn parau, recordio podlediad/cyfweliad syml yn trafod cwmnïau cynhyrchu cyfryngau o Gymru a'u cynnyrch
- creu cyflwyniad sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos o gwmnïau cynhyrchu cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynnyrch
- creu poster/diagram gweledol am gwmnïau cyfryngau creadigol o Gymru
- cwblhau tabl gyda gwybodaeth allweddol am dri gwahanol gwmni cyfryngau creadigol o Gymru a'u cynhyrchion.

### DD1.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- paru/trefnu cynhyrchion gyda'u cynulleidfa darged
- dangos un cynnyrch cyfryngau i ddysgwyr a gofyn iddynt nodi ar gyfer pwy mae'r cynnyrch
- y dysgwyr i nodi cynnyrch cyfryngau maent yn ei ddefnyddio a dweud pam maen nhw'n ei hoffi.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- y dysgwyr i drafod sut y gall cynhyrchion cyfryngau creadigol apelio at gynulleidfaoedd e.e., defnyddio lliw, testun, delweddau ac ati.
- y dysgwyr i gofnodi diffiniad ysgrifenedig neu sain o'r term cynulleidfa darged
- rhoi enghreifftiau o gynnyrch cyfryngau i ddysgwyr e.e., posteri ffilm, cloriau gemau fideo, postiadau cyfryngau cymdeithasol a gofyn iddynt labelu dwy nodwedd sy'n apelio at y gynulleidfa darged.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- creu cynrychiolaeth weledol o sut gellir categoreiddio cynulleidfaoedd e.e., tabl, map meddwl, diagram ac ati.
- rhoi enghraifft o gynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru i ddysgwyr a gofyn iddynt nodi/labelu sut mae'n apelio at gynulleidfaoedd
- y dysgwyr i greu poster/diagram o'u proffil eu hunain fel defnyddiwr cyfryngau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- dewis cynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru ac mewn parau/grwpiau nodi'r gynulleidfa darged ac apêl y cynnyrch
- creu astudiaeth achos syml sy'n edrych ar ddau gynnyrch cyfryngau creadigol o Gymru
- cwblhau tabl sy'n nodi cynhyrchion a'u cynulleidfa darged.

## DD1.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- rhoi rhestr o rolau swyddi i'r dysgwyr a gofyn iddynt nodi pa rai fyddai'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol
- creu cwis rhyngweithiol llusgo a gollwng lle mae'r dysgwyr yn nodi rolau a sgiliau swyddi yn y diwydiant cyfryngau creadigol
- creu rhestr o gyfleoedd astudio ôl-16 a gofyn i'r dysgwyr nodi pa rai sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- gweithgaredd paru: gofyn i'r dysgwyr baru rolau swyddi â'u diffiniadau neu gyfrifoldebau
- chwarae rôl sesiwn holi ac ateb syml ar gyfer rôl swydd yn y diwydiant cyfryngau creadigol
- creu poster syml ar gyfer un rôl swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- labelu delwedd o rôl swydd sy'n disgrifio beth mae'r unigolyn yn ei wneud a'r sgiliau sydd eu hangen arno.
- chwarae rôl creu fideo byr am swyddi yn y diwydiannau cyfryngau creadigol e.e., ‘diwrnod ym mywyd Cynhyrchydd’
- ysgrifennu rhestr o sgiliau ar gyfer hysbyseb swydd yn y diwydiannau cyfryngau creadigol

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- y dysgwyr i wylio fideo am swydd yn y diwydiant cyfryngau creadigol a disgrifio'r hyn sy'n berthnasol i'r swydd.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- ymchwilio i'r cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rolau o fewn y diwydiannau cyfryngau creadigol ac esbonio eu canfyddiadau
- creu poster/ffeithlun gyrfaoedd sy'n esbonio rolau a llwybrau yn y diwydiannau cyfryngau creadigol
- chwarae rôl cyfweliad ar gyfer swydd allweddol yn y diwydiannau cyfryngau creadigol.

## DD1.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- rhoi rhestr o sefydliadau cyfryngau creadigol i'r dysgwyr a gofyn iddynt ddewis corff rheoleiddio
- creu cwis cywir/anghywir i'r dysgwyr am gyrff rheoleiddio neu ystyriaethau moesegol allweddol
- darparu rhestr o faterion moesegol sy'n berthnasol i'r diwydiannau cyfryngau creadigol i'r dysgwyr a gofyn iddynt ddewis un a fyddai'n cael ei ystyried wrth gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- y dysgwyr i gofnodi datganiad ysgrifenedig neu sain am un corff rheoleiddio
- y dysgwyr i restru'r ystyriaethau moesegol allweddol ar gyfer enghraifft o gynnyrch cyfryngau creadigol
- edrych ar enghraifft o gynnyrch cyfryngau creadigol sy'n amlygu materion moesegol a gofyn i'r dysgwyr nodi'r mater.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- gweithgaredd paru lle mae dysgwyr yn paru'r cyrff rheoleiddio â'u cyfrifoldeb
- y dysgwyr i wylio clip fideo byr gan gorff rheoleiddio e.e., Ofcom ac ateb cwestiynau am yr hyn maent yn ei wneud a pham mae hynny'n bwysig
- creu cyflwyniad byr sy'n esbonio rôl cyrff rheoleiddio yn y diwydiannau cyfryngau creadigol e.e. hysbysebu ffug.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- gwylio fideo byr am un o'r ystyriaethau moesegol allweddol ac yna trafodaeth grŵp
- astudiaethau achos/senarios: darparu cynnyrch cyfryngau creadigol i'r dysgwyr a gofyn iddynt esbonio pwy sy'n gyfrifol a pha ystyriaethau moesegol sy'n berthnasol
- creu ffeithlun neu daflen gyngor sy'n esbonio ystyriaethau moesegol cynhyrchion cyfryngau creadigol.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i archwilio cwmnïau a chynhyrchion cyfryngau creadigol proffesiynol o Gymru. Gall hyn fod drwy brofiadau, megis ymweld â stiwdio, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- cyfleoedd i archwilio ffurfiau cyfryngau
- cyfleoedd i ymchwilio i ddiwydiannau cyfryngau Cymru.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster hwn yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Mae cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w cael yn Atodiad A. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 2 Offer a phrosesau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau

| | |
|---|---|
| ODA | 84 awr |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn datblygu gallu dysgwyr i gynllunio a chynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol. Mae'n canolbwyntio ar gynhyrchu syniadau a chymhwyso offer a phrosesau rhag-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu.<br><br>Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis ymchwilio a chynllunio ac yn ennill profiad mewn sgiliau cynhyrchu ymarferol. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>DD2.1 – gallu cynhyrchu a datblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol<br>DD2.2 – gallu defnyddio offer rhag-gynhyrchu i gynllunio a threfnu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ddiogel<br>DD2.3 – gallu defnyddio adborth i wneud newidiadau i rag-gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol<br>DD2.4 – gallu defnyddio offer a phrosesau cynhyrchu cyfryngau creadigol i greu cynnyrch cyfryngau<br>DD2.5 – gallu cynnal prosesau ôl-gynhyrchu cyfryngau i olygu cynnyrch cyfryngau creadigol<br>DD2.6 – gallu defnyddio technegau creadigol mewn cynnyrch cyfryngau i apelio at gynulleidfa. |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesiad ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal drwy weithgareddau wedi'u gosod gan athrawon sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Ceir awgrymiadau am weithgareddau a thystiolaeth ar ôl yr uned. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm o 38 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd asesu fel arfer o fewn yr ystod ddangosol o 25–38 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi bras amcan o'r amser a dreuliodd pob dysgwr ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Yn dibynnu ar y ffurf cyfryngau a ddewiswyd gan y dysgwr, efallai y bydd angen yr adnoddau canlynol i gyflwyno'r asesiad:<br><br>• offer recordio fideo, er enghraifft, ffôn symudol, camera fideo<br>• offer recordio sain, er enghraifft, ffôn symudol, microffon, clustffonau<br>• meddalwedd briodol i gynhyrchu dogfennaeth, er enghraifft, Adobe Creative Suite |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • meddalwedd/rhaglenni golygu sain a chlyweledol. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol. |

## Cynnwys

Yn yr uned hon, bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu a datblygu syniadau i greu a mireinio cynnyrch creadigol a'r cyfryngau yn **un** o'r ffurfiau cyfryngau canlynol:

- clyweledol
- sain
- cyfryngau rhyngweithiol
- dylunio graffeg/cyhoeddi.

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD2.1<br>Gallu cynhyrchu a datblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol | Defnyddio offer datblygu syniadau a chynllunio rhag-gynhyrchu i gynhyrchu, cynllunio a dangos syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol mewn un ffurf cyfryngau, er enghraifft:<br><br>• bwrdd naws – i gasglu lliwiau, delweddau ac arddulliau<br>• map meddwl – i danio syniadau neu themâu<br>• bwrdd stori – i ddangos beth fydd yn digwydd mewn dilyniant neu fideo<br>• braslun neu frasfodel – i ddangos sut y gallai dyluniad edrych<br>• amlinelliad o sgript neu destun – i gynllunio'r hyn fydd yn cael ei ddweud neu ei ysgrifennu<br>• promptiau – mewn offer deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu syniadau cychwynnol. |
| DD2.2<br>Gallu defnyddio offer rhag-gynhyrchu i gynllunio a threfnu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ddiogel | Cyflwyniad i amrywiaeth o offer rhag-gynhyrchu sy'n helpu i gynllunio a threfnu gwaith cyfryngau creadigol, er enghraifft:<br><br>• defnyddio templedi syml neu enghreifftiau o offer cynllunio, er enghraifft:<br>  ◦ bwrdd stori<br>  ◦ amserlen cynhyrchu<br>  ◦ rhestr o saethiadau neu restr o ddelweddau<br>  ◦ cynllun trosleisio neu sgript<br>• sut mae'r offer hyn yn helpu i gadw trefn ar brojectau a'u cadw ar y trywydd iawn<br>• cwblhau, labelu neu addasu dogfennau cynllunio syml.<br><br>Defnyddio offer technegol ac offer digidol rhag-gynhyrchu, er enghraifft:<br><br>• offer technegol a ddefnyddir mewn cynhyrchu creadigol a chyfryngau, er enghraifft: |

© WJEC CBAC Ltd 2026.
DRAFT

<table>
<thead>
<tr><th>Deilliant dysgu<br>Bydd y dysgwr yn:</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
</thead>
<tbody>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li><ul>
<li>camerâu, ffonau clyfar, tabledi</li>
<li>meicroffonau neu recordwyr sain syml</li>
<li>trybeddau, goleuadau, neu bropiau syml (os oes rhai ar gael)</li>
</ul></li>
<li>meddalwedd neu apiau digidol a ddefnyddir mewn cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, er enghraifft:
<ul>
<li>meddalwedd dylunio graffeg/cyhoeddi</li>
<li>meddalwedd golygu delweddau</li>
<li>meddalwedd golygu fideo</li>
<li>meddalwedd golygu sain</li>
<li>meddalwedd cyflwyno</li>
</ul></li>
<li>deall bod gwahanol offer yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol dasgau'r cyfryngau creadigol (er enghraifft, recordio sain, golygu delweddau neu ychwanegu testun)</li>
<li>gweithio'n ddiogel wrth ddefnyddio offer neu ddyfeisiau technegol, dilyn cyfarwyddiadau ac arweiniad athrawon.</li>
</ul>
Cynllunio, rheoli amser a diogelwch mewn projectau cynhyrchu cyfryngau creadigol, er enghraifft:
<ul>
<li>camau cynllunio – er enghraifft, cynllunio, gwneud, gwirio a gorffen</li>
<li>amserlennu tasgau – er enghraifft, gosod dyddiadau cau byr neu drefnu tasgau ar linell amser</li>
<li>adnabod adnoddau – er enghraifft, offer, delweddau, clipiau sain ac offer</li>
<li>rheolau iechyd a diogelwch – er enghraifft, defnyddio offer yn gywir, gofyn am gymorth cyn defnyddio offer newydd, cadw ffeiliau wedi'u cadw'n ddiogel</li>
<li>sicrhau bod ffactorau moesegol a rheoleiddiol wedi'u hystyried – er enghraifft, defnyddio delweddau di-hawlfraint a gofyn am ganiatâd cyn recordio.</li>
</ul>
Defnyddio offer rhag-gynhyrchu digidol i baratoi ar gyfer cynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol, er enghraifft:
<ul>
<li>defnyddio offer dethol (er enghraifft, bwrdd stori, amserlen, map meddwl) er mwyn helpu i baratoi ar gyfer creu'r cynnyrch cyfryngau</li>
<li>cadw'r gwaith cynllunio yn ddiogel ac yn drefnus (yn ddigidol neu ar bapur)</li>
<li>adolygu'r cynllun er mwyn gwirio beth sydd angen ei wneud neu ei newid o hyd.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>DD2.3<br>Gallu defnyddio adborth i wneud newidiadau i rag-gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol</td><td>
Sut mae adborth yn helpu i wella gwaith cyfryngau creadigol, er enghraifft:
<ul>
<li>beth yw adborth a pham mae'n ddefnyddiol</li>
<li>gall adborth ddod gan wahanol bobl, er enghraifft:
<ul>
<li>athrawon neu diwtoriaid</li>
<li>cyd-ddisgyblion (adborth gan gymheiriaid)</li>
<li>hunan-adfyfyrio</li>
<li>offer AI;</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
</tbody>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th>Deilliant dysgu<br>Bydd y dysgwr yn:</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>enghreifftiau o adborth defnyddiol</li>
<li>sut i ymateb yn gadarnhaol i adborth a gwneud gwelliannau bach.</li>
</ul>
Defnyddio adborth i ddewis meysydd i'w gwella, er enghraifft:
<ul>
<li>gwrando'n ofalus ar adborth gan eraill</li>
<li>canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol er mwyn gwella.</li>
</ul>
Gwneud newidiadau i gynllun yn seiliedig ar adborth neu hunan-adfyfyrio, er enghraifft:
<ul>
<li>gwelliannau gweladwy, er enghraifft:
<ul>
<li>newid lliwiau, cynllun neu destun er eglurder</li>
<li>ail-recordio neu addasu clipiau sain neu fideo</li>
<li>ychwanegu cynnwys coll neu gywiro gwallau</li>
</ul></li>
<li>beth sydd wedi cael ei newid a pham</li>
<li>nodi meysydd i'w gwella.</li>
</ul>
Cynhyrchu cynllun neu gynlluniau terfynol y gellid eu defnyddio i gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol.
</td></tr>
<tr><td>DD2.4<br>Gallu defnyddio offer a phrosesau cynhyrchu cyfryngau creadigol i greu cynnyrch cyfryngau</td><td>
Dylai dysgwyr ddefnyddio gwaith rhag-gynhyrchu (DD2.1 – 2.3) i lywio eu cynnyrch cyfryngau creadigol.
Defnyddio prosesau cynhyrchu sylfaenol sy'n gysylltiedig â chreu cynhyrchion cyfryngau, megis:
<ul>
<li>trefnu offer ac adnoddau</li>
<li>trefnu lleoliadau neu osodiadau</li>
<li>trefnu modelau/actorion/rhai sy'n cael eu cyfweld</li>
<li>trefnu propiau a gwisgoedd</li>
<li>gweithio'n ddiogel</li>
<li>cymhwyso ymwybyddiaeth (o gynnwys rhag-gynhyrchu) o barchu hawlfraint a chael caniatâd</li>
<li>gweithio gydag eraill.</li>
</ul>
Defnyddio offer cynhyrchu sylfaenol i greu cynhyrchion cyfryngau creadigol mewn un o ffurfiau'r cyfryngau.
Clyweledol
<ul>
<li>Recordio delwedd glyweledol/symudol gan ddefnyddio camera neu ffôn clyfar, er enghraifft:
<ul>
<li>newid math o saethiad</li>
<li>fframio a chyfansoddiad</li>
<li>ffocws</li>
<li>goleuadau, e.e. goleuadau naturiol/artiffisial, effeithiau goleuo.</li>
</ul></li>
</ul>
Sain
<ul>
<li>Recordio sain gan ddefnyddio meicroffon neu ffôn clyfar, er enghraifft:
<ul>
<li>sain fyw</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| | • effeithiau sain<br>• deialog.<br><br>**Cyfryngau rhyngweithiol**<br>• Cynhyrchu cynhyrchion amlgyfrwng, er enghraifft:<br>    • delweddau llonydd<br>    • delweddau symudol<br>    • elfennau rhyngweithiol, megis bwydlenni, bar llywio, sgrolio<br>• Tynnu lluniau gan ddefnyddio camera neu ffôn clyfar, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • goleuo<br>• Cynhyrchu testun, er enghraifft:<br>    • iaith<br>    • teipograffeg a ffont.<br>• Creu cynlluniau a dyluniadau, er enghraifft:<br>    • lliw<br>    • graffeg.<br><br>Ar gyfer y cyfryngau rhyngweithiol, nid yw'n ofynnol i ddysgwyr greu gwefannau drwy ieithoedd rhaglennu megis HTML. Mae'n dderbyniol i ddysgwyr ddefnyddio meddalwedd dylunio gwefannau neu dempledi ar gyfer yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn gyfrifol am gynnwys a dyluniad tudalen we.<br><br>**Dylunio graffeg / cyhoeddi**<br>• Tynnu lluniau gan ddefnyddio camera neu ffôn clyfar, er enghraifft:<br>    • cyfansoddiad<br>    • goleuo<br>• Cynhyrchu testun, er enghraifft:<br>    • iaith<br>    • teipograffeg a ffont<br>• Creu cynlluniau a dyluniadau, er enghraifft:<br>    • lliw<br>    • graffeg. |
| DD2.5<br>Gallu cynnal prosesau ôl-gynhyrchu'r cyfryngau i olygu cynnyrch cyfryngau creadigol | Defnyddio offer a phrosesau ôl-gynhyrchu sylfaenol i olygu cynhyrchion cyfryngau creadigol, megis:<br><br>• golygu delweddau symudol, er enghraifft:<br>    • pontio<br>    • effeithiau<br>    • graffeg<br>• golygu sain, er enghraifft:<br>    • addasu lefelau<br>    • torri/trimio<br>    • haenu<br>• golygu delweddau llonydd, er enghraifft:<br>    • trin, megis haenau, addasiadau, hidlwyr, effeithiau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| | • tocio a newid maint<br>• addasu cyferbyniad a disgleirdeb<br>• golygu testun, er enghraifft:<br>  • defnyddio offer adolygu<br>  • ail-ddrafftio<br>  • lleihau neu ehangu<br>• profi a thrwsio cyfryngau rhyngweithiol, er enghraifft:<br>  • profion defnyddwyr<br>  • cywiro gwallau teipograffyddol<br>  • newid lliw neu faint testun<br>• cadw ac allforio deunydd, er enghraifft:<br>  • cadw gwaith sydd ar y gweill<br>  • cadw mewn fformat priodol<br>  • allforio cynnyrch terfynol. |
| DD2.6<br>Gallu defnyddio technegau creadigol mewn cynnyrch cyfryngau i apelio at gynulleidfa | Defnyddio technegau creadigol mewn cynnyrch cyfryngau maent yn ei greu er mwyn apelio at gynulleidfa, er enghraifft:<br><br>• Hysbyseb teledu<br>  • cynnwys delweddau<br>  • cyflymder golygu<br>  • defnydd o slogan<br>• Hysbyseb sain<br>  • tôn y llais<br>  • arddull yr iaith<br>  • defnydd o 'jingl'<br>• Poster<br>  • cynnwys delweddau<br>  • dewis o deipograffeg<br>  • defnydd o liw<br>• Tudalen we<br>  • dewis o osodiad<br>  • cynnwys delweddau<br>  • defnydd o graffeg. |

## Meini prawf asesu

Mae gan pob maen prawf asesu bwyntiau sy'n cynrychioli'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni. Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Dyfernir gradd yr uned yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pwyntiau a gyflawnwyd gan y dysgwr fel y nodir yn adran 4.3 Graddio.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.1<br>Bydd y dysgwr yn gallu cynhyrchu a datblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol | 2.1.1<br>Nodi neu rannu syniadau syml ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol mewn ymateb i destun neu thema cyfarwydd yn y ffurf cyfryngau maen nhw wedi'i ddewis. | 2.1.1<br>Cynhyrchu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol mewn ymateb i bwnc neu thema gyfarwydd yn y ffurf cyfryngau maen nhw wedi'i ddewis. | 2.1.1<br>Cynhyrchu syniadau creadigol ar gyfer cynnyrch cyfryngau mewn ymateb i friff project syml yn y ffurf cyfryngau maen nhw wedi'i ddewis. | 2.1.1<br>Cynhyrchu a datblygu amrywiaeth o syniadau creadigol ar gyfer cynnyrch cyfryngau sy'n bodloni prif ofynion briff project yn y ffurf cyfryngau maen nhw wedi'i ddewis. | /4 |
| | 2.1.2<br>Defnyddio un offeryn cynllunio i ddangos eu syniad. | 2.1.2<br>Defnyddio o leiaf ddau offeryn cynllunio i ddangos eu syniad. | 2.1.2<br>Defnyddio offer cynllunio priodol i ddatblygu a dangos eu syniadau. | 2.1.2<br>Dewis a defnyddio offer cynllunio priodol i ddatblygu a chyfathrebu eu syniadau'n glir. | /4 |
| | 2.1.3<br>Nodi un gynulleidfa darged ar gyfer y cynnyrch. | 2.1.3<br>Nodi un gynulleidfa darged ar gyfer y cynnyrch a nodi pwrpas y cynnyrch. | 2.1.3<br>Disgrifio sut mae'r syniadau yn diwallu anghenion y gynulleidfa darged a'r pwrpas. | 2.1.3<br>Esbonio sut mae'r syniadau yn cwrdd ag anghenion y gynulleidfa darged a'r pwrpas. | /4 |
| | 2.1.4<br>Labelu neu siarad am yr hyn mae'r syniad yn ei gynnwys. | 2.1.4<br>Cyflwyno'r syniad i eraill gan ddefnyddio dulliau gweledol neu lafar. | 2.1.4<br>Rhannu'r syniad gydag eraill gan ddefnyddio fformat priodol, gan roi un rheswm pam mae'n addas ar gyfer briff y project rhag-gynhyrchu. | 2.1.4<br>Rhannu'r syniad a ddewiswyd mewn fformat priodol, gan roi o leiaf ddau reswm pam mae'n addas ar gyfer briff y project rhag-gynhyrchu. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.2<br>Bydd y dysgwr yn gallu defnyddio offer rhag-gynhyrchu i gynllunio a threfnu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ddiogel | 2.2.1<br>Nodi offer cynllunio rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.2.1<br>Defnyddio un offer cynllunio rhag-gynhyrchu i gynllunio cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.2.1<br>Defnyddio amrywiaeth o offer cynllunio rhag-gynhyrchu i gynllunio cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.2.1<br>Dewis a defnyddio amrywiaeth o offer rhag-gynhyrchu addas i gynllunio a threfnu cynnyrch cyfryngau creadigol. | /4 |
| | 2.2.2<br>Nodi offer a ddefnyddir ar gyfer eu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.2<br>Defnyddio offer yn ddiogel i gasglu delweddau, fideo neu sain ar gyfer eu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.2<br>Defnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar yn ddiogel i gynllunio ar gyfer eu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.2<br>Dewis a defnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar addas yn ddiogel ac yn gyfrifol i gynllunio a threfnu eu cynnyrch cyfryngau creadigol yn ystod rhag-gynhyrchu. | /4 |
| | 2.2.3<br>Cymryd rhan mewn camau cynllunio yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.3<br>Dilyn cynllun sylfaenol neu linell amser i gwblhau tasgau creadigol syml yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.3<br>Cynllunio eu project gan ddefnyddio terfynau amser byr, rhestrau gwirio neu amserlenni syml, gan ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o amser ac adnoddau yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.3<br>Creu a dilyn cynllun sy'n cynnwys adnoddau, cyfrifoldebau ac amserlenni realistig ar gyfer cwblhau cynnyrch cyfryngau creadigol fel rhan o rag-gynhyrchu. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2.2.4<br>Dilyn cyfarwyddiadau diogelwch syml wrth ddefnyddio offer neu gyfarpar yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.4<br>Gweithio'n ddiogel wrth ddefnyddio offer a chyfarpar yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.4<br>Cymhwyso arferion gweithio diogel a deall materion hawlfraint neu ganiatâd syml, yn ystod rhag-gynhyrchu. | 2.2.4<br>Gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddangos ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch, hawlfraint a diogelwch ffeiliau digidol wrth gynllunio gwaith creadigol, yn ystod rhag-gynhyrchu. | /4 |

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.3<br>Bydd y dysgwr yn gallu defnyddio adborth i wneud newidiadau i rag-gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol | 2.3.1<br>Adnabod beth yw adborth ac o ble mae'n dod. | 2.3.1<br>Nodi gwahanol fathau o adborth a sut y gall helpu i wella gwaith cyfryngau creadigol. | 2.3.1<br>Amlinellu pa adborth a gafwyd a sut y gwnaeth helpu i wella gwaith cyfryngau creadigol. | 2.3.1<br>Adolygu adborth o o leiaf ddwy ffynhonnell wahanol ac esbonio'n fyr sut mae wedi llywio gwelliannau i waith cyfryngau creadigol. | /4 |
| | 2.3.2<br>Nodi un pwynt allweddol ar gyfer gwella mewn ymateb i adborth. | 2.3.2<br>Nodi o leiaf ddau faes i'w gwella mewn ymateb i adborth. | 2.3.2<br>Dewis o leiaf ddau faes i'w gwella mewn ymateb i adborth neu hunan-adfyfyrio. | 2.3.2<br>Dewis a rhoi rhesymau dros feysydd gwelliant allweddol mewn ymateb i adborth neu werthusiad. | /4 |
| | 2.3.3<br>Gwneud un newid i'w gwaith rhag-gynhyrchu. | 2.3.3<br>Gwneud o leiaf un gwelliant i'w gwaith rhag-gynhyrchu yn seiliedig ar adborth. | 2.3.3<br>Gwneud newidiadau i wella eu gwaith rhag-gynhyrchu, gan nodi beth a newidiwyd a pham. | 2.3.3<br>Mireinio eu gwaith rhag-gynhyrchu, gan esbonio'n glir sut mae'r newidiadau yn gwella ansawdd neu addasrwydd i'r gynulleidfa. | /4 |
| | 2.3.4 | 2.3.4 | 2.3.4 | 2.3.4 | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| | Dweud beth maen nhw'n ei hoffi am eu gwaith. | Nodi un cryfder allweddol y gwaith rhag-gynhyrchu ac un rhan o'r gwaith rhag-gynhyrchu sydd angen ei wella. | Amlinellu cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella yn eu gwaith creadigol. | Gwerthuso effeithiolrwydd eu cynllun neu gynnyrch terfynol, gan esbonio sut mae'n cwrdd â'r pwrpas a'r gynulleidfa. | |
| DD2.4<br>Bydd y dysgwr yn gallu defnyddio offer a phrosesau cynhyrchu cyfryngau creadigol i greu cynnyrch cyfryngau | 2.4.1<br>Nodi cynnwys syml ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol rhannol o waith rhag-gynhyrchu. | 2.4.1<br>Nodi cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol o waith rhag-gynhyrchu. | 2.4.1<br>Defnyddio gwaith rhag-gynhyrchu i greu cynnyrch cyfryngau creadigol rhannol. | 2.4.1<br>Defnyddio gwaith rhag-gynhyrchu i greu cynnyrch cyfryngau creadigol cyflawn. | /4 |
| | 2.4.2<br>Nodi prosesau cynhyrchu sylfaenol sydd eu hangen i greu cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.4.2<br>Nodi'r prosesau cynhyrchu sydd eu hangen i greu cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.4.2<br>Dilyn prosesau cynhyrchu priodol i greu cynnyrch cyfryngau creadigol rhannol. | 2.4.2<br>Dilyn prosesau cynhyrchu priodol i greu cynnyrch cyfryngau creadigol cyflawn. | /4 |
| | 2.4.3<br>Defnyddio un offeryn cynhyrchu priodol i greu cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.4.3<br>Defnyddio offer cynhyrchu priodol i greu cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol. | 2.4.3<br>Dewis a defnyddio offer cynhyrchu priodol i greu cynnyrch cyfryngau creadigol rhannol. | 2.4.3<br>Dewis a defnyddio offer cynhyrchu priodol i greu cynnyrch cyfryngau creadigol cyflawn. | /4 |
| DD2.5<br>Bydd y dysgwr yn gallu cynnal prosesau ôl-gynhyrchu'r cyfryngau i olygu cynnyrch | 2.5.1<br>Gwneud un golygiad i gynnyrch cyfryngau creadigol fel rhan o'r ôl-gynhyrchu. | 2.5.1<br>Gwneud o leiaf ddau olygiad i gynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau creadigol fel rhan o'r ôl-gynhyrchu. | 2.5.1<br>Cynnal amrywiaeth o brosesau ôl-gynhyrchu i olygu cynnyrch cyfryngau creadigol rhannol. | 2.5.1<br>Cynnal amrywiaeth o brosesau ôl-gynhyrchu i olygu cynnyrch cyfryngau creadigol cyflawn. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth (1 pwynt):** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth (2 bwynt):** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth (3 phwynt):** | **Lefel 1 yn annibynnol (4 pwynt):** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| cyfryngau creadigol | | | | | |
| DD2.6<br>Bydd y dysgwr yn gallu defnyddio technegau creadigol mewn cynnyrch cyfryngau i apelio at gynulleidfa | 2.6.1<br>Adnabod technegau creadigol priodol ar gyfer y gynulleidfa darged mewn briff cynhyrchu. | 2.6.1<br>Nodi technegau creadigol priodol ar gyfer y gynulleidfa darged mewn briff cynhyrchu. | 2.6.1<br>Defnyddio technegau creadigol priodol ar gyfer y gynulleidfa darged mewn briff cynhyrchu. | 2.6.1<br>Defnyddio amrywiaeth o dechnegau creadigol priodol ar gyfer cynulleidfa darged mewn briff cynhyrchu. | /4 |
| | 2.6.2<br>Cydnabod un ffordd y byddai'r cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at ei gynulleidfa darged. | 2.6.2<br>Nodi un ffordd y byddai'r cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at ei gynulleidfa darged. | 2.6.2<br>Disgrifio dwy ffordd y byddai'r cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at ei gynulleidfa darged. | 2.6.2<br>Esbonio dwy ffordd y byddai'r cynnyrch cyfryngau creadigol yn apelio at ei gynulleidfa darged. | /4 |
| | | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | **/72** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghraifft o senario

Mae Tîm Cyfryngau Iau "Golwg Cymru" wedi gofyn i chi helpu i greu syniadau ar gyfer ymgyrch newydd sy'n dathlu'r hyn sy'n gwneud Cymru'n arbennig.

Bydd yr ymgyrch yn hyrwyddo digwyddiadau, lleoedd neu ddiwylliant Cymru i gynulleidfa ifanc.

Eich tasg chi yw **cynllunio a chreu cynnyrch cyfryngau creadigol** sy'n hyrwyddo agwedd ar Gymru. Gallai hyn ymwneud â lle, traddodiad diwylliannol, digwyddiad, unigolyn, cymuned, hobi, tîm, anifail neu unrhyw beth arall rydych chi'n teimlo sy'n cynrychioli Cymru mewn ffordd gadarnhaol.

Byddwch yn cynllunio ac yn gwneud y cynnyrch cyflawn yn ystod eich asesiad. Byddwch yn:

- defnyddio offer a phrosesau rhag-gynhyrchu i gynhyrchu syniadau a chynllunio eich cynnyrch
- defnyddio offer a phrosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu i greu eich cynnyrch, gan gynnwys technegau creadigol priodol i apelio at eich cynulleidfa.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD2.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- rhannu syniad syml am gynnyrch cyfryngau creadigol gan ddefnyddio ysgogiadau megis delweddau, testun, fideos
- y dysgwyr i gofnodi disgrifiad ysgrifenedig neu sain o'r hyn y mae eu syniad yn ei gynnwys
- defnyddio templed offeryn cynllunio e.e., bwrdd stori, brasfodel i ddangos eu syniad
- llunio neu fraslunio eu syniadau am gynnyrch cyfryngau creadigol a labelu'r nodweddion allweddol
- dewis cynulleidfa darged briodol o restr ar gyfer y cynnyrch.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- creu rhestr, diagram neu fap meddwl o syniadau am gynnyrch cyfryngau creadigol
- defnyddio dau dempled offeryn cynllunio syml e.e., bwrdd stori, brasfodel, bwrdd naws ac awyrgylch, i ddangos eu syniadau
- creu cyflwyniad sain neu glyweledol syml sy'n amlinellu eu syniadau
- trafodaeth pâr neu grŵp lle mae'r dysgwyr yn rhannu eu syniadau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- edrych ar gynhyrchion cyfryngau creadigol sydd eisoes yn bodoli a thrafod yr hyn y gallent ei ddefnyddio fel ysbrydoliaeth
- creu brasfodelau gweledol a diagramau i gefnogi syniadau
- creu cyflwyniad byr sy'n amlinellu eu syniad am gynnyrch cyfryngau creadigol
- ysgrifennu esboniad o'u syniadau a'u penderfyniadau creadigol
- creu bwrdd naws ac awyrgylch gweledol i gynrychioli lliwiau, delweddau ac arddull eu syniadau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- rhoi cylch o gwmpas prif bwyntiau'r briff project a'i anodi gyda'u syniadau creadigol
- chwarae rôl cyflwyno syniad am gynnyrch cyfryngau creadigol i gyfoedion neu 'gleientiaid', gan esbonio penderfyniadau creadigol
- anodi eu cynlluniau eu hunain gan esbonio pwrpas y cynnyrch a'i apêl i'r gynulleidfa darged
- trafodaeth pâr neu grŵp gan siarad yn fanwl am syniadau gyda chyfle i holi ac ateb.

## DD2.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dangos amrywiaeth o ddelweddau o offer cynhyrchu i'r dysgwyr a gofyn iddynt nodi beth y gallai fod angen iddynt ei ddefnyddio
- dewiswch eitem/offer o restr o adnoddau i'w defnyddio i gynhyrchu cynnyrch cyfryngau creadigol
- llunio diagram o'r camau sydd eu hangen i gwblhau'r broses rhag-gynhyrchu
- gwylio fideo am gynllunio rhag-gynhyrchu a diogelwch a nodi syniadau allweddol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- creu llinell amser syml neu fwrdd stori i gwblhau tasgau creadigol yn ystod rhag-gynhyrchu
- trafodaeth sain/ffilm am weithdrefnau diogelwch y dylid eu dilyn wrth ddefnyddio offer a chyfarpar
- cymryd darn sampl o sain / ffilm glyweledol ar gyfer rhag-gynhyrchu a chynllunio.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- arbrofi gydag offer er mwyn penderfynu beth sydd angen ei ddefnyddio wrth gynhyrchu
- creu rhestr o offer/adnoddau a fydd yn cael eu defnyddio yn eu cynnyrch cyfryngau creadigol
- creu rhestrau gwirio wrth baratoi ar gyfer cynhyrchu gan gynnwys offer, amserlenni, adnoddau a chyfrifoldebau
- defnyddio offer digidol priodol i greu cynllun/llinell amser/amserlen gynhyrchu.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- arbrofi gydag offer a chyfarpar rhag-gynhyrchu er mwyn penderfynu beth i'w ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain
- cwblhau cofnod digidol o arferion gweithio diogel a ddilynwyd yn ystod y broses rhag-gynhyrchu
- creu llinell amser fanwl sy'n dangos y broses o'r dechrau i'r diwedd.

## DD2.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- nodi ffynonellau adborth posibl e.e., cyfoedion, athro, deallusrwydd artiffisial
- y dysgwyr i wrando ar adborth a nodi un maes allweddol i'w wella

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- y dysgwyr i wneud un newid i'r cynllunio yn seiliedig ar adborth. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, ychwanegu cynnwys coll, gwella delweddau neu synau, addasu rhywbeth i weddu'n well i'r gynulleidfa
- cwblhau adolygiad rhestr wirio er mwyn hunanasesu neu ddarparu adborth gan gymheiriaid.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- ystyried/trafod pethau cadarnhaol a negyddol mewn gwahanol fathau o adborth
- gwrando ar sylwadau athrawon/cyfoedion a gwneud nodiadau yn cofnodi eu hadborth
- defnyddio sbardunau i ofyn i offer deallusrwydd artiffisial am adborth syml ar waith cyfryngau creadigol
- cwblhau templed hunanwerthuso syml sy'n nodi meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella
- labelu/anodi gwaith gan ddefnyddio adborth sy'n nodi meysydd i'w gwella.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- trafodaeth gyda chyfoedion neu athro am eu gwaith
- creu cynllun gweithredu yn seiliedig ar adborth cyfoedion/athrawon/deallusrwydd artiffisial sy'n amlinellu'r camau nesaf ar gyfer cynhyrchu
- Ysgrifennu gwerthusiad byr yn dweud beth maent yn ei hoffi am eu gwaith
- gwneud newidiadau bach i'r cynllunio yn seiliedig ar adborth. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, ychwanegu cynnwys coll, gwella delweddau neu synau, addasu rhywbeth i weddu'n well i'r gynulleidfa. Ysgrifennu neu ddweud beth sydd wedi newid yn y cynhyrchiad a pham
- cymryd sgrinluniau/delweddau i ddogfennu newidiadau i waith cynllunio rhag-gynhyrchu.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- sesiwn holi ac ateb sy'n gysylltiedig â thasg chwarae rôl cynnig syniadau blaenorol (DD2.1) lle mae'r gynulleidfa yn rhoi adborth ar syniadau
- cymharu cynlluniau rhag-gynhyrchu ag enghreifftiau gweledol o gynhyrchion bywyd go iawn. Hunan-adfyfyrio ar ran y dysgwyr, gan nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella
- anodi gwaith rhag-gynhyrchu sy'n esbonio beth sydd wedi newid a pham
- cymharu'r gwaith cyn ac ar ôl ei fireinio a chyflwyno'r newidiadau maent wedi'u gwneud
- ysgrifennu hunanwerthusiad sy'n esbonio cryfderau eu gwaith a'r meysydd i'w gwella.

## DD2.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- mewn parau, neu gydag athro, trafod gwaith rhag-gynhyrchu a nodi cynnwys a syniadau addas
- Rhestru adnoddau ar gyfer y cynhyrchiad (er enghraifft, lleoliadau, gosodiadau, modelau, actorion, propiau a gwisgoedd)
- tynnu lluniau gan ddefnyddio offer camera neu ffonau clyfar
- arbrofi gydag onglau camera sylfaenol, gosodiadau goleuo, recordio sain, neu olygu gyda chefnogaeth.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- adolygu gwaith rhag-gynhyrchu a dewis cynnwys ar gyfer cynhyrchu cyfryngau creadigol
- arbrofi gydag onglau camera sylfaenol, gosodiadau goleuo, recordio sain, neu olygu gyda chefnogaeth
- arbrofi gyda nodweddion teipograffeg, cynllunio a dylunio gyda chefnogaeth
- chwarae rôl yn actio golygfeydd byr neu rannau o'r cynhyrchiad, gan ymdrin â recordio a chwarae'n ôl syml.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- chwarae rôl actio golygfeydd/senarios
- ymarfer sgiliau recordio, ymdrin â recordio a chwarae'n ôl syml
- defnyddio dogfennau cynllunio rhag-gynhyrchu i greu cynnwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau
- trefnu ac amserlennu adnoddau ar gyfer y cynhyrchiad (er enghraifft, lleoliadau, gosodiadau, modelau, actorion, propiau a gwisgoedd).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- defnyddio cynllunio rhag-gynhyrchu i greu llinell amser ar gyfer cynhyrchu creadigol
- recordio fideo/sain gan ddefnyddio technegau goleuo, camera a sain priodol.
- arbrofi gydag onglau camera, gosodiadau goleuo, recordio sain, neu olygu
- arbrofi gyda nodweddion teipograffeg, cynllun a dylunio.

## DD2.5

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- gwneud un newid bach i'r cynhyrchiad. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, tocio clipiau neu ychwanegu hidlyddion
- gweithgaredd dilyniannu/cynllunio – y dysgwyr i benderfynu sut y dylid trefnu elfennau o'u cynhyrchiad gydag arweiniad ar gwestiynau a chefnogaeth
- gyda chefnogaeth, cadw ac allforio deunydd i fformat priodol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- gwneud newidiadau bach i'r cynhyrchiad. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, tocio clipiau neu ychwanegu hidlyddion
- defnyddio apiau neu feddalwedd i ychwanegu capsiynau, trawsnewidiadau syml, neu recordio sylwebaeth sain gyda chefnogaeth.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- golygu fideo/sain gan ddefnyddio technegau goleuo, camera a sain priodol
- gwneud newidiadau i'r cynhyrchiad. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, ychwanegu cerddoriaeth neu sain, ychwanegu trawsnewidiadau.
- arbrofi gydag effeithiau a mireinio'r cynhyrchiad i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y briff a'r gynulleidfa darged
- cadw, allforio a threfnu deunydd unwaith y bydd y cynhyrchiad wedi'i gwblhau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- golygu fideo/sain gan ddefnyddio technegau goleuo, camera a sain priodol
- gwneud newidiadau i'r cynhyrchiad. Dyma rai enghreifftiau: newid lliwiau, cynllun neu destun, ychwanegu cerddoriaeth neu sain, ychwanegu trawsnewidiadau
- arbrofi gydag effeithiau a mireinio'r cynhyrchiad i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y briff a'r gynulleidfa darged
- cadw, allforio a threfnu deunydd unwaith y bydd y cynhyrchiad wedi'i gwblhau.

### DD2.6

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- labelu eu cynhyrchiad i nodi sut mae eu cynhyrchiad yn apelio at y gynulleidfa darged
- y dysgwyr i ddangos eu cynnyrch terfynol i'w cyfoedion a disgrifio ar gyfer pwy mae'r cynnyrch
- y dysgwyr i nodi pa dechnegau creadigol oddi ar restr maen nhw wedi'u defnyddio yn eu cynhyrchiad.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda rhywfaint o gefnogaeth):

- recordio fideo byr neu ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi sut mae eu cynhyrchiad yn bodloni gofynion y briff a'r gynulleidfa darged
- anodi/labelu eu cynhyrchiad gan nodi'r apêl i'r gynulleidfa.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- recordio cyflwyniad neu ddatganiad ysgrifenedig sy'n esbonio sut mae eu cynhyrchiad yn bodloni gofynion y briff a'r gynulleidfa darged, gan gynnwys y technegau creadigol a ddefnyddiwyd
- ymchwilio i gynulleidfaoedd targed ac ystyried sut mae tôn, arddull a chynrychiolaeth yn effeithio ar neges eu cynnyrch.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- tasg chwarae rôl lle mae dysgwyr yn esbonio i'w 'cleient' sut maent wedi cwrdd â'r briff, gan gynnwys cyfleoedd i holi ac ateb
- cynnal adolygiad o'r cynnyrch gan esbonio pa dechnegau creadigol sydd wedi'u defnyddio a pham.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i archwilio cwmnïau a chynhyrchion cyfryngau creadigol proffesiynol o Gymru. Gall hyn fod drwy brofiadau, megis ymweld â stiwdio, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- cyfleoedd i archwilio ffurfiau cyfryngau
- cyfleoedd i ymchwilio i ddiwydiannau cyfryngau Cymru.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Mae cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w cael yn Atodiad A. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3. Asesu

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu trwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei hasesu'n fewnol a sicrhau ei hansawdd yn allanol trwy broses o gymedroli allanol. Mae gwybodaeth am y broses gymedroli i'w chael yn y ddogfen *Asesiad Mewnol: Canllaw i Ganolfannau*, sydd i'w gael o adran weinyddu gwefan CBAC.

Dim ond ar ôl i'r addysgu a'r dysgu perthnasol gael ei gwblhau y dylid cynnal asesiad. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu hasesu'n barhaus nac yn rhy gynnar.

## 3.1. Tasgau asesu

Mae gan athrawon hyblygrwydd i ddylunio tasgau asesu a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr orau. Mae'r dull hwn yn caniatáu iddynt deilwra asesiadau yn ôl diddordeb, gallu a chyd-destun pob grŵp dysgwyr. Mae hefyd yn gyfle i athrawon fod yn greadigol a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rhaid i dasgau asesu alluogi dysgwyr i fodloni pob maen prawf asesu ar gyfer yr uned ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad. Mae pob maen prawf asesu wedi'i strwythuro ar draws pedair lefel, o Mynediad 1 i Lefel 1, a gall cyflawniad dysgwr amrywio ar draws gwahanol dasgau o fewn yr un uned.  Mae'r dull hwn yn cydnabod cynnydd ym mhob cam ac yn gwerthfawrogi cyflawniad unigol, datblygiad sgiliau, a thwf.

Er mwyn cefnogi canolfannau i ddylunio asesiadau addas, darperir tasgau enghreifftiol ar ôl pob uned o fewn y fanyleb hon. Er bod yr enghreifftiau hyn yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob deilliant dysgu unigol, gall athrawon ddyfeisio tasgau sy'n rhychwantu deilliannau dysgu lluosog, ar yr amod eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos cyflawniad yr holl feini prawf asesu perthnasol ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad.

## 3.2. Hyd yr asesiad

Rhaid i'r Ganolfan sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm hyd a nodir yn y crynodeb uned ar gyfer pob uned. Bwriad hyn yw cefnogi cymhariaeth ar draws canolfannau a chaniatáu addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a natur tasgau a ddyfeisiwyd gan ganolfannau.

I'r mwyafrif o'r dysgwyr, dylai gweithgareddau asesu fel arfer fod o fewn amser dangosol pob uned, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad.  Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.
.

Rhaid i ganolfannau nodi'n fras faint o amser a dreuliwyd ar weithgareddau asesu ar gyfer pob dysgwr a phob uned.  Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

## 3.3. Gofynion tystiolaeth

Gall dysgwyr ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu drwy amrywiaeth o fathau gwahanol o dystiolaeth, gan gynnwys:

- arsylwadau athrawon – arsylwi'r dysgwr yn cyflawni tasg neu weithgaredd yn uniongyrchol

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- aseiniadau neu dasgau ysgrifenedig – ymatebion ysgrifenedig strwythuredig i dasgau gosod, sy'n addas i lefel y dysgwr
- allbynnau creadigol – gwaith celf, modelau, cyfryngau digidol, neu gynhyrchion creadigol eraill sy'n dangos sgiliau cymhwysol
- enghreifftiau o waith grŵp – tystiolaeth o gyfraniadau at dasgau grŵp, gyda nodiadau arsylwi neu waith adfyfyrio dysgwyr i'w cefnogi
- datganiad y dysgwr – cofnod ysgrifenedig neu wedi'i recordio gan y dysgwr yn adfyfyrio ar yr hyn a wnaeth a'r hyn a ddysgwyd
- asesiad gan gyfoedion neu hunanasesiad – cyfleoedd strwythuredig i ddysgwyr werthuso eu gwaith eu hunain neu waith eraill (gydag arweiniad)
- tystiolaeth ffotograffig – delweddau sy'n dangos gwaith neu gyfranogiad y dysgwr i weithgaredd, gyda chyd-destun wedi'i ddarparu
- llyfrau log neu lyfrau gwaith ymarferol – cofnodion o weithgareddau a gwblhawyd dros amser, gan gynnwys adfyfyrio ac adborth
- gwaith project – tasgau estynedig neu ymchwiliadau sy'n dangos cynllunio, gweithredu ac adolygu
- gweithgareddau efelychiadol – tasgau a gyflawnir mewn amgylchedd rheoledig sy'n dynwared senarios byd go iawn
- ateb cwestiynau athro/aseswr – ymateb i gwestiynau strwythuredig, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, i gadarnhau dealltwriaeth
- recordiadau fideo/sain – recordiadau o'r dysgwr yn cyflawni tasg, yn rhoi cyflwyniad, neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth
- tystiolaeth gan dyst – datganiadau gan athrawon, staff cymorth, neu eraill sydd wedi arsylwi perfformiad y dysgwr.

Dylid llunio tystiolaeth dysgwyr ar gyfer pob uned mewn portffolio ar gyfer asesu mewnol a chymedroli allanol. Ystyr y term 'portffolio' yw casgliad strwythuredig o dystiolaeth a gall gynnwys deunyddiau digidol yn ogystal â deunyddiau papur.

Rhaid cael Cofnod Asesu Dysgwr wedi'i gwblhau ynghyd â'r portffolio, y gellir ei gyrchu o dudalen cymwysterau gwefan CBAC (ychwanegir dolen pan fydd y dudalen ar gael). Rhaid defnyddio'r Cofnod Asesu Dysgwr hwn i gofnodi:

- y gweithgareddau asesu y mae dysgwyr wedi'u cwblhau (yr hyn a wnaed)
- lleoliad y dystiolaeth
- sylwadau'r athro
- lefel y gefnogaeth a'r arweiniad a gafodd y dysgwyr
- bras amcan o faint o amser y mae'r dysgwr wedi'i dreulio ar asesiad
- pa feini prawf asesu a fodlonwyd gan y dysgwr
- y radd a ddyfarnwyd a chyfanswm nifer cyffredinol y meini prawf asesu a gyflawnwyd ar neu'n uwch na'r radd a ddyfarnwyd.

Rhaid cyflwyno pob tystiolaeth yn ddigidol. Pan fydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith papur neu dystiolaeth ffisegol, dylid sganio, tynnu llun neu ffilmio'r rhain er mwyn gallu cyflwyno fersiwn ddigidol glir. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gyflwyno yn y ddogfen e-gyflwyno: *Uwchlwytho IAMIS (System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol) – Canllawiau Pwnc*, y gellir ei chyrchu o adran weinyddu gwefan CBAC.

## 3.4. Cefnogaeth ac arweiniad

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth iddynt adeiladu eu portffolio. Dylai cefnogaeth adlewyrchu'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni.

- Bydd ar ddysgwyr Mynediad 1 angen lefel uchel o gefnogaeth, gan gynnwys cymorth llafar, gweledol ac ymarferol, defnyddio symbolau, neu dechnoleg gynorthwyol. Dylai

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

casglu tystiolaeth a thasgau fod wedi'u strwythuro'n fanwl er mwyn galluogi cyfranogiad a chyflawniad ystyrlon trwy ymgysylltiad â chefnogaeth.

- Dylai dysgwyr Mynediad 2 ddangos eu bod yn dechrau dod yn annibynnol ond efallai y byddant angen awgrymiadau, cwestiynau dan arweiniad neu dempledi patrwm ar gyfer cynllunio, trefnu ac adfyfyrio ar eu gwaith.
- Disgwylir i ddysgwyr Mynediad 3 weithio heb fawr ddim cefnogaeth, gyda dim ond arweiniad achlysurol yn unig i gadarnhau dealltwriaeth neu adolygu cynnydd.
- Dylai dysgwyr Lefel 1 weithio'n annibynnol ond gan barhau i dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo. Gall athrawon a thiwtoriaid gynnig cyngor ar gynllunio a strwythuro eu hatebion, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth a chyflwyno tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol. Hefyd gellir cynorthwyo drwy egluro cyfarwyddiadau, ysgogi adfyfyrio neu helpu dysgwyr i sylweddoli beth yw'r camau nesaf, heb gwblhau'r gwaith ar eu rhan.

Mae'r model cymorth graddedig hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau wrth iddynt symud ymlaen trwy'r lefelau.

## 3.5. Goruchwylio a dilysu

Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau gweithgareddau asesu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

Cydweithio: caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hynny wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro a'r dysgwr.

## 3.6. Marcio (dyfarniadau asesu)

Er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd mewn asesu, rhaid i athro neu aseswr dynodedig gydag arbenigedd pwnc priodol gwblhau'r holl farcio.

Rhaid i athrawon ac aseswyr sicrhau bod:

- dyfarniad dim ond yn digwydd yn erbyn y meini prawf asesu, nid yn seiliedig ar argraffiadau cyffredinol nac ymdrech y dysgwr
- tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei hanodi'n glir er mwyn dangos sut mae'n bodloni meini prawf penodol
- tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau neu arddangosiadau ymarferol) yn cael ei dogfennu gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol, gyda pha feini prawf sydd wedi'u bodloni ac ar ba lefel wedi'u nodi'n glir
- yr holl dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir, gyda digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu
- cofnodion arsylwi, os ydynt yn cael eu defnyddio, yn cynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

Mae pob deilliant dysgu yn cael ei gefnogi gan bedwar band perfformiad gwahanol o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu sbectrwm eang o alluoedd dysgwr ar lefel mynediad. Cydnabyddir y gall perfformiad dysgwr amrywio ar draws gwahanol ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu o fewn yr un uned.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwr gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Pan fo perfformiad yn cael ei arsylwi gan rywun heblaw yr aseswr, rhaid cwblhau datganiad tyst. Yr aseswr sy'n gyfrifol am ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr neu'r tyst. Gall datganiadau tyst wedi'u dilysu gyfrannu at y dystiolaeth asesu gyffredinol, a rhaid cynnwys dogfennaeth dilysu.

Darperir pro forma safonedig ar gyfer cofnodion tystion ac arsylwadau. Dylid rhoi copi o'r pro forma i ddysgwyr ymlaen llaw er mwyn cefnogi tryloywder a chysondeb.

Mae gradd gyffredinol yr uned a gyflawnir gan y dysgwr yn cael ei phennu drwy'r rheolau graddio a amlinellir yn Adran 4.3 Graddio.

## 3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w hailasesu cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw enw'r broses hon.

Gall dysgwyr ailgyflwyno er mwyn:

- ymdrin â thystiolaeth sydd wedi'i hepgor neu dystiolaeth anghyflawn ar gyfer y lefel gyfredol
- ceisio cyflawni meini prawf asesu ychwanegol neu lefel uwch (er enghraifft, symud ymlaen o Mynediad 2 i Mynediad 3 neu Lefel 1).

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- nodi pa feini prawf asesu sydd heb eu bodloni ganddynt a/neu gadarnhau'r lefel sydd wedi'i chyflawni hyd yn hyn
- osgoi rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i fodloni meini prawf lefel uwch
- gael ei ddogfennu a bod ar gael i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:

- ganiatáu nifer o ailgyflwyniadau ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- ganiatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei asesu.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle maent yn anelu at wella neu symud ymlaen yn unig.

Ni ddylai'r amser a ganiateir ar gyfer ailgyflwyno fod yn hwy na'r cyfanswm amser a ddarparwyd ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth gychwynnol.

Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau er mwyn darparu llwybr archwilio clir, gan gynnwys lefel wreiddiol y dysgwr ac unrhyw ailgyflwyniad. Dim ond y dystiolaeth derfynol a'r penderfyniadau asesu sydd angen eu cyflwyno i'w cymedroli'n allanol.

Unwaith y bydd penderfyniadau asesu wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r dystiolaeth. Un cyfle sydd gan ddysgwyr i ailsefyll asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol (gweler adran 4.4).

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.8. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer eu Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestru ar gyfer unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster hwn.

Bydd cymedroli allanol Uned 1 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2028 a phob cyfres haf wedi hynny.

Bydd cymedroli allanol Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2029 a phob haf wedi hynny.

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| Uned | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Cyflwyniad i ddiwydiannau'r cyfryngau creadigol yng Nghymru | | |
| Uned 2 | Offer a phrosesau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4.3. Graddio

Bydd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu dyfarnu ar raddfa pedwar pwynt Mynediad 1 Llwyddiant i Lefel 1 Llwyddiant, a Lefel 1 Llwyddiant yw'r radd uchaf

## Graddau unedau

Dyfernir gradd grynodol i ddysgwyr ar gyfer pob uned a bennir gan gyfanswm y pwyntiau y mae'r dysgwr wedi'u cyflawni o fewn yr uned honno.

Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

I gael Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 20% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 40% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 60% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 80% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Mae'r tabl isod yn dangos lleiafswm y pwyntiau y mae'n rhaid i ddysgwr eu cyflawni i gael pob gradd uned.

| | Uchafswm Pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 40 | 8 | 16 | 24 | 32 |
| **Uned 2** | 72 | 14 | 29 | 43 | 58 |

Bydd cyflawniad uned ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni lleiafswm y meini prawf asesu i gael dyfarniad Mynediad 1 yn cael eu dangos fel annosbarthedig (U).

## Gradd y cymhwyster

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y pwyntiau cyffredinol a gyflawnir gan y dysgwr ym mhob uned.

I gael Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 20% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

I gael Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 40% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

I gael Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 60% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

I gael Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 80% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos lleiafswm y pwyntiau y mae'n rhaid i ddysgwr eu cyflawni i gael pob gradd cymhwyster.

| | Uchafswm Pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymhwyster** | 112 | 22 | 45 | 67 | 90 |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau i ennill Llwyddiant Mynediad 1, yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned unwaith (dau gynnig i gyd). Bydd y radd uchaf a gyflawnwyd yn y ddwy ymgais yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar ganlyniad terfynol y cymhwyster.

Wrth ailsefyll:

- Gall dysgwyr ailgyflwyno gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon sicrhau bod tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiedig yn cael ei adnabod yn glir.
- os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.
- os bydd dysgwr yn cyflwyno tystiolaeth ond nad yw'n bodloni unrhyw feini prawf asesu, bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.
- pan fo'r cymhwyster yn cynnwys unedau lluosog, bydd tystiolaeth a phenderfyniadau o unedau eraill yn cael eu cario ymlaen, ar yr amod nad yw'r dysgwr wedi mynd heibio uchafswm ymdrechion unrhyw uned.
- os bydd ymgeisydd yn mynd heibio uchafswm y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddynt ail-wneud y cymhwyster yn llawn.

## 4.5. Ail-wneud y cymhwyster

Os yw ymgeisydd yn dychwelyd i uned am y trydydd tro, rhaid iddynt ddychwelyd ac ail-wneud pob uned.

Rhaid i'r dysgwr gynhyrchu portffolio newydd o dystiolaeth. Ni chaiff dysgwr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol; rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei chynhyrchu o'r newydd ar gyfer yr ailsefyll. Pan fo canolfannau'n cynhyrchu cyd-destun ar gyfer asesu, dylid defnyddio cyd-destun newydd.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob uned. Ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd/graddau newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | |
| Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Cynaliadwyedd | DD1.1, DD1.4 | DD2.2 |
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | DD1.2, DD1.3 | DD2.2, DD2.4, DD2.6 |
| Addysg hawliau dynol | DD1.2 | DD2.4, DD2.6 |
| Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | DD1.1 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | |
| Gwrando | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.3, DD2.4, DD2.5 |
| Darllen | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Siarad | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Ysgrifennu | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 2 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | DD1.2 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | - | DD2.1, DD2.2, DD2.4, DD2.5 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | - | DD2.1, DD2.4, DD2.5 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | DD1.2 | - |
| Cymhwysedd Digidol | | |
| Dinasyddiaeth | DD1.2, DD1.4 | DD2.2, DD2.5 |
| Rhyngweithio a chydweithio | - | DD2.3 |
| Cynhyrchu | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Data a meddwl cyfrifiannol | - | - |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 2 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | |
| Creadigrwydd ac arloesi | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Cynllunio a threfnu | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5, DD2.6 |
| Effeithiolrwydd personol | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2, DD2.3, DD2.4, DD2.5 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

wjec
cbac

FOR CENTRES IN WALES:

www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000